**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

Llyr Gruffydd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

08 Hydref 2019

Annwyl Llyr

**Y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru): Ymateb pellach i argymhelliad y Pwyllgor ar gyhoeddi gwariant etholiad**

Ysgrifennaf atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ystyriaeth Comisiwn y Cynulliad o Argymhelliad 7 yn adroddiad eich pwyllgor ar oblygiadau ariannol y Bil Senedd ac Etholiadau (Cymru).

Yn yr adroddiad, gwnaethoch argymell:

> **Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid diwygio'r Bil hwn i ddarparu, ar wyneb y Bil, ddarpariaethau i sicrhau bod gwariant etholiadau'r Cynulliad yn cael ei gyhoeddi cyn gynted â phosibl yn dilyn etholiadau a refferenda'r Cynulliad.

Nodais yn fy ymateb cychwynnol i chi, yn fy llythyr ar 13 Awst, y byddwn yn ceisio cael sicrwydd pellach gan y Cwnsler Cyffredinol ynghylch bwriad y Llywodraeth i gyhoeddi data o'r fath drwy ddulliau heblaw deddfwriaeth sylfaenol. Roedd hyn yn dilyn yr awgrym a wnaeth yn hyn o beth yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

Yn dilyn hynny, cefais wybodaeth bellach gan swyddogion y Llywodraeth ar sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi gwariant ar etholiadau a refferenda'r Cynulliad fel mater o drefn. Mae'r wybodaeth hon i'w gweld isod:

> **Data agored**
>
> O dan nodau ehangach prosiect data agored Llywodraeth Cymru i wella tryloywder, bydd yn cyhoeddi costau etholiadau a refferenda'r Cynulliad ar ei gwefan. Deallaf mai allbwn cyntaf y gwaith hwn fydd cyhoeddi costau mewn perthynas ag etholiad Cynulliad 2016 yn syth.
>
> Y costau fydd yn cael eu cyhoeddi yw'r rhai a ysgwyddir gan swyddogion canlyniadau wrth redeg etholiadau, gan gynnwys costau staff, argraffu a llogi adeiladau, a chostau ymgyrch bostio y mae gan bob ymgeisydd hawl iddi. Ni fydd y costau a gyhoeddir yn cynnwys treuliau ymgeiswyr nad oes gan Lywodraeth Cymru fynediad atynt.
>
> O 2021, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi costau etholiadau a refferenda'r Cynulliad cyn gynted â phosibl ar ôl eu digwyddiad. Bydd hyd y cyfnod rhwng yr etholiadau hynny a chyhoeddi costau mewn perthynas â hwy yn amrywio, yn dibynnu ar nifer o ffactorau fel lefel yr ymholiadau mewn perthynas â'r data, a'r staff sydd ar gael yn Llywodraeth Cymru ac mewn awdurdodau lleol i gwblhau'r gwaith.
>
> Nid yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi costau yn ymwneud ag etholiadau prif gynghorau a chynghorau cymunedol gan mai'r 22 prif awdurdod lleol sy'n gyfrifol amdanynt. Fodd bynnag, bydd yn eu hannog i gyhoeddi'r costau hynny fel data agored.
>
> Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod cyhoeddi gwariant etholiadau fel hyn yn ddull mwy hyblyg, cost-effeithiol a chymesur na gosod dyletswydd i wneud hynny mewn deddfwriaeth.

Rwyf wedi trafod y wybodaeth hon gyda Chomisiynwyr y Cynulliad. Ar sail ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau bod data'n cael ei gyhoeddi'n

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

rheolaidd, sy’n unol â nod argymhelliad eich pwyllgor, nid yw Comisiwn y Cynulliad yn bwriadu imi gyflwyno gwelliant i weithredu Argymhelliad 7.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

Yn gywir

**Elin Jones**

Y Llywydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.